

## YMGYSYLLTU DIGIDOL A CHYMDEITHASOL

Mae Earthfall yn gwmni teithiol o faint canolig sydd wedi ennill gwobrau lu ac yn darparu ffyrdd newydd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Cafodd eu hymgyrchoedd marchnata eu cymeradwyo gan Gyngor Celfyddydau Lloegr fel enghraifft o'r arferion gorau, ac mae aelodau o'r cwmni yn cymryd rhan yn aml mewn cynadleddau i'r diwydiant, gweithdai a seminarau. Yn ddiweddar, cyfeiriodd Cyngor Celfyddydau Cymru at ansawdd gwaith marchnata ac ymgysylltu Earthfall fel enghraifft loyw hefyd ac mae Earthfall yn sicrhau bod marchnata a chyfathrebu wrth galon model busnes y cwmni. Mae gan y cwmni adnoddau canolog sy'n cefnogi gweithgarwch creadigol - gweithgarwch cyfranogol a ffilm yn ogystal â'r cynyrchiadau eu hunain.

Mae Earthfall yn cynnig cytundeb llawn-amser am gyfnod o 6 mis i ddechrau ym mis Medi 2013. Nod y rôl newydd fydd cefnogi a datblygu ein gweithgarwch marchnata a chyfathrebu er mwyn datblygu perthynas â chynulleidfaoedd presennol, cynulleidfaoedd newydd ac â rhan-ddeiliaid a chanolfannau perfformio. I gael mwy o wybodaeth am Earthfall ewch i [earthfall.org.uk](http://earthfall.org.uk), neu gallwch ymuno â'n grŵp Facebook neu ein dilyn ni ar Twitter.

Yn ystod yr hydref, bydd Earthfall yn cymryd eu cynhyrchiad diweddaraf, CHELSEA HOTEL, ar daith i 17 o leoliadau ledled y DG. Bydd yna 28 o berfformiadau, gan gynnwys cyfnod o bythefnos yn Llundain. Enillodd Earthfall wobwr nodedig CANMOL am ymgyrch farchnata'r cynhyrchiad diwethaf ac mae'r cwmni'n awyddus i ategu a datblygu'r llwyddiant hwnnw. O'r herwydd, rydym yn buddsoddi ac yn datblygu ein hymwneud digidol â'n cynulleidfaoedd a'n rhan-ddeiliaid.

O'r swyddfa yn Chapter, Caerdydd, bydd gofyn i ddeiliad y swydd ddilyn y daith a'i hyrwyddo yn y gwahanol leoliadau, gydag aelodau eraill o'r staff craidd. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddeiliad y swydd deithio a bod yn barod i dreulio cyfnod oddi cartref. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio hefyd yn y swyddfa felly ni fydd gweithio o adref yn bosib.

Mae strwythur sefydliadol y cwmni yn llinell wastad a bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gefnogi staff eraill ar adegau. Mae disgwyl i bob aelod o'r tîm craidd reoli eu prosiectau eu hunain gyda chefnogaeth gan weddill y tîm craidd.

### RÔL: YMWNEUD DIGIDOL A CHYMDEITHASOL

**Cyflog:** £18,000 y flwyddyn pro rata

**Oriau:** 1000 - 1800 Dydd Llun - Dydd Gwener. Hyblyg, yn enwedig pan yn teithio. Mae Earthfall yn gwmni teithiol o faint canolig ac felly rydym yn gweithio oriau 'anghymdeithasol'.

**Cyfnod y cytundeb:** 6 mis o fis Medi 2013 ymlaen.

### DISGRIFIAD O'R SWYDD

Rheolwr llinell deiliad y swydd fydd y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu. Mae strwythur sefydliadol Earthfall yn llinell wastad a disgwylir i ddeiliad y swydd gyfrannu'n llawn at reolaeth a gweithrediad y sefydliad.

Bydd disgwyl i Ddeiliad y Swydd ymwneud â'r canlynol:

1. Bod yn gyfrifol am weithredu ein hymgylltiad digidol â chynulleidfaoedd, cynulleidfaoedd newydd, rhan-ddeiliaid, y wasg, y cyfryngau a'r sector diwylliannol
2. Cyfrannu at ddatblygu ein hymgyrchoedd marchnata a digidol

3. Datblygu, gweithredu a gwerthuso ein hymgyrchoedd digidol a chyfrannu at werthusiadau o'n hymgyrchoedd marchnata
4. Datblygu perthnasau â'n lleoliadau partner, rhan-ddeiliaid a chynulleidfaoedd
5. Datblygu ein cyhoeddiadau a'n gweithgarwch ar-lein
6. Datblygu archif ar-lein y cwmni

Bydd deiliad y swydd yn ymgymryd â'r amcanion hyn drwy:

1. Gefnogi datblygiad a darpariaeth o weithgareddau marchnata a chyfathrebu
2. Ddatblygu a darparu cynnwys rheolaidd ar gyfer ein sianelau cyfryngau cymdeithasol a sicrhau bod y cynnwys yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd
3. Rheoli ein gwe-fan/porth dwyieithog o ddydd i ddydd
4. Reoli ymwneud digidol y cwmni, gan gynnwys gweithio gyda'n lleoliadau partner i hyrwyddo'r cynhyrchiad teithiol
5. Reoli a chyflwyno ein hymgyrch Realiti Estynedig, a gweithio gyda lleoliadau a phartneriaid digidol
6. Rheoli prosiectau a chyflwyno deunydd i gefnogi ein Rhaglen Addysg a Chyfranogi, gan gynnwys e-gyhoeddiadau
7. Rheoli gwerthusiadau o'r hymgyrchoedd

Bydd angen teithio ledled y DG, a mynychu perfformiadau yn ystod y daith. Telir lwfans cynhaliath yn unol â chyfraddau EQUITY/ITC.

Bydd angen i ddeiliad y swydd ddangos profiad o:

1. Weithio o fewn terfynau amser
2. Ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys offer gwerthuso
3. Weithio mewn tîm bach a gallu i fod yn hyblyg
4. Weithio gydag amrywiaeth o gydweithwyr mewn nifer o ddisgyblaethau
5. Feddwl a chwblhau tasgau'n greadigol

	Hanfodol	Dymunol
Profiad Canolradd/Uwch o offer a sianeli cyfryngau cymdeithasol sylfaenol	*	
Profiad Canolradd o Systemau Rheoli Gwefannau	*	
Profiad o ddefnyddio technolegau aml-blatfform	*	
Profiad o reoli prosiectau digidol		*
Trwydded yrru lawn		*
Gallu i siarad Cymraeg		*
Profiad Canolradd/Uwch o feddalwedd golygu fideo		*
Profiad o farchnata a chyfathrebu yn y sector diwylliannol		*
Profiad canolradd o feddalwedd dadansoddi a dehongli canlyniadau		*
Dealltwriaeth o'r broses ddatblygu ar gyfer Apiau	*	
Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar	*	
Gallu i wynebu 'i mewn' ac 'allan' - cynrychioli'r cwmni yng nghwmni rhan-ddeiliaid a chynulleidfaoedd pan ar daith, yn ogystal â chefnogi'r cwmni teithiol	*	

#### **SUT I WNEUD CAIS:**

Dylech ddanfôn CV llawn, ynghyd â manylion dau ganolwr (gan gynnwys un cyflogwr blaenorol), a nodi yn eich llythyr eglurhaol eich resymau dros fod eisiau gweithio gyda Earthfall a'r hyn y teimlwyd y gallwch ei gyfrannu.

Yn eich cais, rhowch fanylion eich tudalen Facebook eich hun a'ch cyfrif Twitter, ynghyd â manylion unrhyw weithgareddau ymgysylltu ar-lein eraill yr ydych wedi ymwneud â nhw. Defnyddir enghreifftiau a nodir gennych yn rhan o'r broses o bennu'r rhestr fer.

Mae'r swydd hon wedi ei chyd-ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Loteri Genedlaethol yn rhan o'r Cynllun Cyllido ar gyfer Datblygu Cynulleidfaoedd.

**Diwygiedig dyddiad cau ar gyfer derbyn CVs a dogfennau ategol: hanner dydd, 29 Gorffennaf.**

Cynhelir **cyfweiliadau** yn Chapter, Caerdydd, wythnos o 5-9 Awst, ac fe fyddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer erbyn 02 Awst.

Os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol am y rôl cyn cyflwyno eich cais, cysylltwch â Stephan Stockton, Rheolwr Cyffredinol, ar 02920 221314, neu e-bostiwch [generalmanager@earthfall.org.uk](mailto:generalmanager@earthfall.org.uk)

Anfonwch eich cais at [jobs@earthfall.org.uk](mailto:jobs@earthfall.org.uk)

Mae EARTHFALL yn un o Sefydliadau Cyllid Refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cefnogir CHELSEA HOTEL gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Lloegr a Sefydliad Cymdeithas Hawliau Perfformio.

Mae EARTHFALL yn Gwmni Rheoli wedi'i gymeradwyo gan EQUITY / ITC ac yn aelod o Dance UK a Chymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru

